



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Cynllun Gweithredol 2019–21



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2019.

Trwyddedir y wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.



Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, chc.cymru@cbhc.gov.uk.

Cynnwys

1.	Ein hamgylchedd gweithredol	3
2.	Cyflawni ein Hamcanion Allweddol.....	7
3.	Cymorth grant Llywodraeth Cymru.....	166

1. Ein hamgylchedd gweithredol

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf mae'r Comisiwn Brenhinol wedi datblygu'n sefydliad sy'n edrych tuag allan. Rydym ynghlwm wrth nifer o brosiectau ymchwil o bwys cenedlaethol a rhyngwladol sy'n mynd i'r afael â materion cyfoes allweddol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd a galluogi pobl o bob cefndir i gymryd rhan yn nhreftadaeth Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu partneriaethau proffesiynol gyda'r prif sefydliadau sy'n ymwneud â deall, diogelu, gwella a chreu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, gan gynnwys yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a phrifysgolion Abertawe, Caerdydd, Bangor, Caer ac Aberystwyth, a nifer o awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol, yn ogystal â'r tri sefydliad cenedlaethol arall sy'n gyfrifol am dreftadaeth ddiwylliannol Cymru – Cadw, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r grant creiddiol a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid ymchwil o'r tu allan drwy gydweithio â'r partneriaid uchod a phartneriaid eraill. Mae prosiectau o'r fath bellach yn cyfrif am oddeutu 20 y cant o'n hincwm ac mae hyn wedi ein galluogi i benodi staff ychwanegol i ymgymryd â gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni ein cylch gwaith o dan y Warant Frenhinol, sef ymchwilio i'r amgylchedd hanesyddol a churadu cofnodion.

Felly rydym yn edrych ymlaen at 2019-21 yn llawn hyder a brwdfrydedd, a chyda'r nod o adeiladu ar gyflawniadau'r blynyddoedd diwethaf a dod ag amrywiaeth o brosiectau uchelgeisiol i ben yn llwyddiannus. Y prif rai yw:

- **Cais Safle Treftadaeth Byd y Diwydiant Llechi:** bydd y dystiolaeth a gasglwyd gennym i gryfhau'r cais am statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO yn cael ei chyflwyno i'r Adran Diwylliant erbyn mis Hydref 2019 fel y gall UNESCO adolygu'r dystiolaeth a dod i benderfyniad ym mis Awst 2020.
- **Coffáu'r Rhyfel Anghofiedig yn erbyn y Llongau-U:** bydd ein prosiect mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol i

goffáu'r ymladd ar y môr ar hyd arfordir Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr yn parhau hyd fis Rhagfyr 2019. Mae rhaglen o arolygon geoffisegol morol i gasglu data cydraniad-uchel am 17 longddrylliad wedi'i chwblhau, a bydd y prif bwyslais yng nghan nesaf y prosiect ar gynnal ysgol haf a fydd yn rhoi cyfle i ddeifwyr chwaraeon a deifwyr hamdden astudio un o'r llongddrylliadau. Byddwn yn parhau i gasglu storïau lleol am y Rhyfel Byd Cyntaf ac i roi sylw i effaith y rhyfel ar gymunedau ar hyd arfordir Cymru drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau wedi'u hwyluso mewn 16 o amgueddfeydd môr. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu gwneud yn gyhoeddus mewn cyfres o arddangosfeydd, digwyddiadau, ac adnoddau ar-lein, i gyd-fynd â 'Blwyddyn Darganfod 2019'. Gobeithiwn y bydd cwblhau'r prosiect hwn yn llwyddiannus yn ein galluogi i baratoi cais dilynol i'r Gronfa Dreftadaeth ar gyfer gwaith i goffáu agweddau ar yr Ail Ryfel Byd sydd wedi'u hesgeuluso.

- **Treftadaeth Ddisylw: Ceredigion Gyfyngedig?:** bydd ein prosiect i alluogi pobl ifanc i ddiffinio pa agweddau ar dreftadaeth sy'n werthfawr iddynt a pham, ac i'w helpu i feithrin y sgiliau y mae eu hangen i ymchwilio i'r dreftadaeth honno a'i chofnodi, ac adrodd hanesion grymus amdani, yn parhau hyd fis Medi 2020. Gyda'n partneriaid eraill, sy'n cynnwys Cadw ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, byddwn yn ceisio ffyrdd o gynnal y gweithgarwch hwn wedi i'r ariannu ddod i ben.
- **Darpariaeth ddigidol:** os bydd ein cais am gyllid cyfalaf yn cael ei gymeradwyo, bydd y gwaith i ddatblygu platfform data newydd fel y gallwn ddarparu mwy o gynnwys a chynnwys gwell ar-lein i'r amrywiaeth ehangaf bosibl o ddefnyddwyr yn symud ymlaen yn gyflym yn ystod 2019-20. Y nod yw lansio'r platfform newydd yn 2020. Byddwn yn datblygu'r platfform yn y fath fodd fel y bydd yn caniatáu i Cadw fewnbynnu a chyrchu ei archifau digidol yn uniongyrchol. Bwriadwn gwblhau'n llwyddiannus y drafodaeth sydd ar y gweill ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a Cadw ynghylch defnyddio'r un platfform ar gyfer creu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru-Gyfan, yn lle'r llu o gofnodion presennol, i sicrhau bod yr holl gynnwys creiddiol ar gael yn yr un lle.
- **CHERISH:** bydd y rhaglen CHERISH bum-mlynedd, sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, Arolwg Daearegol Iwerddon a Rhaglen Ddarganfod Iwerddon a'i hariannu gan Gronfa Inter-reg yr Undeb

Ewropeaidd, yn parhau am dair blynedd arall, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Ar ôl cynhyrchu setiau data man cychwyn sy'n dangos y sefyllfa bresennol, byddwn yn parhau i astudio effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol Môr Iwerddon yn y tymor hir er mwyn cadw llygad ar newidiadau yn y dyfodol. Mae gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn rhan bwysig o'r ymchwil hwn, a byddwn yn cynnal cloddiadau hyfforddi yn yr haf yn ystod y ddwy flynedd nesaf mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.

- **Prosiectau yn y maes:** byddwn yn parhau i gofnodi treftadaeth sydd mewn perygl, gan ganolbwyntio'n arbennig ar adeiladau ac addoldai'r 20fed ganrif, ac i gofnodi adeiladau unigol o bwys yng Nghymru sydd mewn perygl o gael eu dymchwel, er enghraifft, Gorsaf yr Heddlu yn Wrecsam a Llyfrgell Aberhonddu.
- **Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru:** byddwn yn parhau i guradu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a byddwn yn gweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i wneud cais i Ymchwil ac Arloesi'r DU am arian i ddatblygu ystorfa ddigidol ddibynadwy ar gyfer holl archifau digidol Cymru.
- **Casgliad y Werin Cymru:** byddwn yn cymryd rhan yn yr adolygiad arfaethedig o Gasgliad y Werin Cymru ac yn gweithio i gefnogi'r argymhellion a wneir; yn fwyaf arbennig, byddwn yn ceisio ffyrdd o gynyddu ein hymwneud â'r prosiect mewn sawl maes, gan gynnwys arloesi ac ymgysylltu â'r gymuned.
- **Y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru:** er mwyn helpu i hybu'r iaith Gymraeg byddwn yn parhau i gefnogi cofnodi a defnyddio enwau lleoedd Cymraeg drwy gyfrwng y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru a reolwn ar ran y genedl. Byddwn yn gweithio gyda Cadw a phartneriaid eraill i hybu'r gwahanol ffyrdd y gall y Rhestr gael ei defnyddio, a byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r grŵp rhanddeiliaid a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru wrth ddatblygu cynnwys perthnasol.

Mae sawl her ynghlwm wrth gyflawni'r agenda uchelgeisiol hon, yn enwedig y perygl y gallai gadael yr UE heb gytundeb ein gorfodi i ddod â'r prosiect CHERISH i ben yn gynnar os na fydd arian Ewropeaidd ar gael ar ei gyfer.

O ystyried ei bod hi'n cymryd tua 24 mis fel rheol i ddatblygu ceisiadau ar gyfer cyllid ymchwil, byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu prosiectau a phartneriaethau newydd i gymryd lle'r rheiny a gaiff eu cwblhau yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Rydym hefyd yn gorfod sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaethau rydym wedi ymrwymo iddynt fel corff hyd braich a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ein dyletswyddau o dan ein Gwarant Frenhinol, a'r ymrwymadau sy'n deillio o'n cytundebau cyllid allanol a phartneriaeth. Mae gan bob un o'n cyllidwyr wahanol systemau adrodd a llywodraethu, ac mae cydymffurfio bellach yn weithgaredd o bwys ynddo'i hun ac yn cyfrif am oddeutu 15 y cant o'n holl gostau ac adnoddau.

Am y rheswm hwn, croesawn gynlluniau Llywodraeth Cymru i ysgafnhau'r baich o ran cydymffurfio sydd ar gyrf hyd braich, gan gynnwys cyflwyno cylchoedd gwaith 'llywodraeth gyfan'. Felly mae'r cynllun gweithredol hwn yn cwmpasu cyfnod o 30 mis (o fis Ebrill 2019 hyd etholiadau Llywodraeth Cymru yn 2021) ac wedyn byddwn yn ymateb i unrhyw fframwaith newydd a ddatblygir gan y Llywodraeth newydd.

Mae gennym ymrwymiad cryf i Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol ac i gydweithio'n nes â Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru i hybu diwylliant cyfoethog Cymru ymhlith cynulleidfaoedd lleol a rhyngwladol, i ddarparu gwasanaeth ardderchog i'r cyhoedd, i fod yn fwy effeithlon pryd bynnag y bo modd drwy gydweithio â'n partneriaid, ac i gynnal rhaglen o wella sgiliau a hyfforddiant i'r staff.

Rydym hefyd yn cefnogi ymdrechion y Prif Weinidog a'r Uned Cyrff Cyhoeddus i greu un gweithlu ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ac i wella effeithiolrwydd drwy gydweithredu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

2. Cyflawni ein Hamcanion Allweddol

Yn y cynllun gweithredol hwn nodir y prif weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod y 30 mis nesaf mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith a dderbyniwn gan y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, sy'n nodi'r Amcanion Allweddol ar gyfer y Comisiwn Brenhinol ar gyfer gweddill y Tymor Llywodraeth presennol (hyd fis Mai 2021).

AA 1: Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda'm swyddogion a'r cyngor a roddant imi, datblygu platfform TG newydd, sy'n gadarn ac yn effeithiol, er mwyn darparu mynediad at archifau a gwasanaethau'r Comisiwn Brenhinol.

AA 2: Darparu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o safon uchel ar gyfer cynulleidfaedd cenedlaethol a rhyngwladol.

AA 3: Gwneud casgliadau, gwasanaethau ac adnoddau'r Comisiwn Brenhinol yn fwy hygyrch, drwy gyfrwng weithgareddau estyn-allan, partneriaethau lleol, ac ati.

AA 4: Arwain y dasg o reoli data am amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn cynnwys y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (CAHion) statudol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn dal y casgliad cenedlaethol o gofnodion yn ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys casgliadau helaeth a chynhwysfawr o ffotograffau. Mae hwn yn adnodd allweddol i'r sawl sy'n ceisio deall sut mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth Cymru wedi datblygu ers y cyfnodau cynharaf.

Cynnwys a darpariaeth ddigidol: bydd y rhan fwyaf o'r unigolion a sefydliadau sy'n gwneud defnydd o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn gwneud hynny drwy ddefnyddio Coflein, ein cyfleuster chwilio gwe-seiliedig, i chwilio am gofnodion a'u hadalw. Ar ôl dibynnu am dros ddeng mlynedd ar ein partneriaeth SWISH gyda Chomisiwn Brenhinol yr Alban gynt ar gyfer y cyfleuster hwn, rydym bellach wedi dechrau datblygu platfform darpariaeth ddigidol newydd a fydd yn darparu mynediad hwylus i adnoddau cyfoethog Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Un o'r prif amcanion ar gyfer y cyfnod yw hwn, a'r nod yw lansio'r plattform digidol newydd yn 2020. Bydd hyn yn ei dro yn rhyddhau'r arian rydym yn ei gyfrannu ar hyn o bryd at y bartneriaeth SWISH i'w ddefnyddio i hyfforddi staff fel y gallant gynnal a gwella'r system newydd. Yna byddwn yn ystyried cyfleoedd pellach i ddatblygu'r plattform fel gwasanaeth i'r amgylchedd hanesyddol ehangach yng Nghymru (gweler *Darpariaeth Ddigidol* uchod).

Mynediad: yn ogystal â pharhau i gasglu, diogelu, catalogio a darparu deunyddiau'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, byddwn yn parhau i hybu defnydd ac ymwybyddiaeth o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ac i ddefnyddio ein gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus ac estyn-allan wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod adnoddau'r Comisiwn Brenhinol ar gael i bawb. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys ein gwasanaethau ar-lein a'n hystafell ymchwil gyhoeddus, rhaglen brysur o ddigwyddiadau a gweithgareddau estyn-allan megis cyhoeddiadau, sgysiau, darlithiau, symposia, teithiau cerdded tywys, dyddiau agored ac arddangosfeydd teithiol, yn ogystal â'n stondinau yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Arweinyddiaeth ar gyfer y CAHion: byddwn yn parhau i arwain y gwaith o reoli data am amgylchedd hanesyddol Cymru drwy oruchwylio'n annibynnol y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol. Byddwn yn ystyried y dewisiadau ar gyfer creu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru Gyfan a fydd yn fwy ymatebol ac effeithlon o ran darparu data CAH-seiliedig, a byddwn hefyd yn adolygu ein gweithdrefnau archwilio i sicrhau y bydd yr archwiliadau CAH pum-mlyneddol a gynhelir yn 2020 yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd y data a'r gwasanaethau a ddarperir.

AA 5: Monitro bodlonrwydd defnyddwyr ac ymgorffori eu hadborth ym mentrau a datblygiadau'r dyfodol.

Bodlonrwydd defnyddwyr: byddwn yn parhau i fonitro bodlonrwydd ac adborth defnyddwyr ac i sicrhau y defnyddir y wybodaeth a gesglir i lywio'r ffordd y byddwn yn cynllunio ein prosiectau, cynhyrchion a gwasanaethau. Byddwn yn dechrau adolygiad o'n strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'r nod o sicrhau ein Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru ein bod ni'n bodloni anghenion ein holl ddefnyddwyr ac yn gwneud cyfleoedd diwylliannol yn

hygyrch i bobl o bob cefndir, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl, a chan annog yr amrywiaeth ehangaf bosibl o gynulleidfaoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Yn y modd hwn, bydd y Comisiwn Brenhinol yn cyfrannu at y nod o wneud Cymru'n genedl weithgar greadigol.

AA 6: Parhau â'ch rhaglen ymchwiliol bresennol, yn enwedig o ran cynorthwyo i ddatblygu'r enwebiad dan arweiniad Cyngor Gwynedd i gael Statws Treftadaeth y Byd i Dirweddau Llechi Cymru wrth iddo gyrraedd y camau hollbwysig cyn mynd gerbron UNESCO.

Cais Safle Treftadaeth Byd Diwydiant Llechi Cymru: byddwn yn parhau i roi cefnogaeth gref i'r cais i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Ddiwydiant Llechi Cymru cyn iddo gael ei gyflwyno i UNESCO yn hydref 2019. Bydd ein staff maes yn parhau i weithio ar y dogfennau craidd ar gyfer yr enwebiad, gan weithio yn y maes i nodi asedau o bwys. Byddwn yn tynnu lluniau o'r awyr er mwyn cyflenwi delweddau cyfoes ar gyfer y dogfennau enwebu, ac yn darparu delweddau hanesyddol o'n harchif. Byddwn yn helpu i ddylunio a chynhyrchu'r ddogfen enwebu derfynol, gan ddefnyddio ein hadnoddau GIS, mapio, dylunio, a modelu 360-gradd. Bydd staff a Chomisiynwyr yn cynnig sylwadau fel 'cyfeillion beirniadol' ar ddrafftiau'r ddogfen enwebu.

Arolygu ac ymchwilio: Bydd ein tîm o staff maes hynod brofiadol yn ymgymryd â rhaglen brysur o waith arolygu i gofnodi a dehongli adeiladau hanesyddol, tirweddau a henebion pwysicaf Cymru, gan ddefnyddio dulliau fel arolygon archaeolegol, ffotograffiaeth, laser-sganio 3D, dronau, LiDAR a thynnu lluniau o'r awyr.

Mae ein strategaeth arolygu'n cynnwys cynnal prosiectau wedi'u seilio ar thema neu ardal i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o rannau o'n treftadaeth nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, sy'n eithriadol o bwysig, neu sydd mewn perygl o ganlyniad i esgeulustod, difrod amgylcheddol neu ddatblygiad. O dan rai amgylchiadau, byddwn yn cofnodi adeiladau arbennig o bwysig mewn ymateb i fygythiadau penodol, ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol i wneud hynny pryd bynnag y bo modd.

Byddwn yn parhau â'n gwaith hirsefydlog ar adeiladau gwerinol canoloesol Cymru, gan weithio gyda phartneriaid megis cymdeithasau lleol a helpu gyda hyfforddiant anffurfiol ar gyfer eu gwirfoddolwyr. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar ddulliau dyddio coed arloesol sy'n seiliedig ar isotopau ocsigen.

Addoldai Hanesyddol: byddwn yn gweithio gyda Cadw a'r Architectural History Practice i gwblhau arolwg o'r holl eglwysi Catholig yng Nghymru er mwyn mesur a phwyso eu pwysigrwydd ac i hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus am geisiadau grant, rhestru, a chau a gwaredu posibl. Byddwn yn gweithio gyda Cadw a'r Eglwys Gatholig i nodi addoldai y dylid gwneud cofnod mwy manwl ohonynt. Byddwn hefyd yn cynnal arolwg peilot o addoldai diwedd y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif yng Nghymru cyn cynnal arolwg Cymru gyfan. Byddwn yn parhau i gadeirio Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru gyda'r nod o helpu cynulleidfaoedd i gwrdd â'r her o ofalu am yr addoldai hanesyddol y maent hwy'n gyfrifol amdanynt.

AA 7: Parhau i gydweithio gyda Croeso Cymru i hyrwyddo Cymru, yn cynnwys trwy gyfrwng y 'Flwyddyn Darganfod' a'r blynyddoedd dilynol a fydd â thema arbennig i hyrwyddo twristiaeth.

Bydd y Comisiwn Brenhinol yn gwneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd, drwy gyflwyno diwylliant, treftadaeth ac iaith y genedl i gynulleidfa ryngwladol a helpu i hyrwyddo ein gwlad yn fyd-eang. Byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys ein harddangosfeydd, sgwrsiau a chyhoeddiadau, ein gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol, ein gwaith maes ac ymchwil a'n gwasanaethau i'r cyhoedd. Byddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, ac yn dathlu cofrestru Diwydiant Llechi Gogledd Cymru os bydd hyn yn llwyddiannus. Fel y corff sy'n cadeirio Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru, byddwn yn trefnu symposiwm i ddwyn ynghyd bawb sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ffydd a phererindota gyda'r nod o hybu cydlynu a budd ariannol.

Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol: yn ychwanegol at y gweithgareddau isod, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol i hyrwyddo treftadaeth Cymru ac i gyfrannu i'r adroddiad 'Heritage Counts' sy'n

ddogfen rymus dros dreftadaeth, a byddwn yn cymryd rhan weithgar yn fforymau a byrddau strategol y sector treftadaeth Cymreig.

Blwyddyn Darganfod: byddwn yn mynd ati i ddatblygu cyfres gydlynol o weithgareddau ar gyfer Blwyddyn Darganfod, gan gynnwys digwyddiadau, cynnwys gwefan ac arddangosfeydd, gyda'r nod o annog pobl i ymchwilio a darganfod mwy am dreftadaeth Cymru, mewn partneriaeth â Chroeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw, Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru a phartneriaid eraill yn y sector. Byddwn yn cyhoeddi ein cyfrol *Cymru a'r Môr*, llyfr dwyieithog llawn lluniau 328-tudalen sy'n cael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â'r cyhoeddwr, Y Lolfa, a bydd ein harddangosfa deithiol ar yr un thema yn parhau i gael ei dangos yn amgueddfeydd Cymru.

AA 8: Parhau i ddarparu profiadau dysgu o'r radd flaenaf.

AA 9: Parhau i greu adnoddau dysgu digidol ar gyfer Hwb mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Cadw.

AA 10: Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac yn rhyngwladol.

Fel rhan o'n rhaglen CHERISH byddwn yn cynnal cloddiadau cymunedol yng Nghymru yn ystod haf 2019 a haf 2020; a byddwn yn cefnogi'r rhaglen o arolygon maes a chloddiadau sy'n cael eu cynnal gan Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur i ddarganfod mwy am y dirwedd fynachaid o amgylch yr abaty.

Byddwn yn parhau i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel, yn anffurfiol drwy ein llyfrgell ac ystafell ymchwil gyhoeddus a'r staff gwybodus sy'n gweithio yno a thrwy ymweliadau grŵp gan blant ysgol, myfyrwyr a grwpiau cymunedol, ac yn fwy ffurfiol drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli neu leoliadau i fyfyrwyr.

Byddwn yn parhau i gyfrannu at y gwaith o ddiffinio cwricwlwm Cymru-ganolog newydd i ysgolion fel aelod o'r gweithgor a sefydlwyd at y pwrpas hwnnw gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

Byddwn hefyd yn parhau i helpu Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol i roi ar waith ei chynllun gweithredu ar gyfer datblygu sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Phrentisiaethau Cymru i ddiffinio a chyflwyno Fframweithiau Prentisiaethau ffurfiol ar gyfer y sector treftadaeth.

AA 11: Parhau i gynorthwyo gyda'r dasg o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng nghyd-destun newid hinsawdd, yn rhannol trwy eich rôl fel aelodau o is-grŵp 'Addasu ar gyfer Newid Hinsawdd' y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, ac yn enwedig yn y meysydd hynny mae gennych arbenigedd ynddynt, fel treftadaeth forol.

Cyngor cynllunio: byddwn yn parhau i gynorthwyo'r rheiny sy'n gweithio ym meysydd cynllunio, cadwraeth a pholisi amgylcheddol er mwyn cyfrannu at reolaeth gynaliadwy o'r amgylcheddau hanesyddol a naturiol, yn enwedig mewn meysydd lle y mae gennym arbenigedd neilltuol megis treftadaeth forol.

Archaeoleg arforol: byddwn yn cyfrannu at ddiffinio a hyrwyddo polisi archaeoleg arforol yng Nghymru ac yn darparu cyngor arbenigol mewn ymateb i geisiadau am drwyddedau morol fel rhan o'r drefn caniatâd morol, gan sicrhau bod llongdrylliadau hanesyddol a phalaeo-dirweddau boddedig yn cael eu deall yn well a'u gwarchod yn dda.

Adeiladau mewn perygl: byddwn yn parhau i drafod â Cadw ynghylch adeiladau unigol a mathau o adeiladau sydd fwyaf mewn perygl a byddwn yn ymgymryd â gwaith cofnodi os yw'r adnoddau gennym (ac os nad oes gennym ddigon o adnoddau i gwrdd â'r angen byddwn yn asesu hyd a lled y gwaith ac yn ceisio lefelau priodol o gyllid).

CHERISH: yn ychwanegol at yr uchod, bydd y gwaith y mae'r Comisiwn Brenhinol yn ei wneud fel rhan o'r prosiect CHERISH yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau. Mae hyn yn wir hefyd am ein gwaith ar ran is-grŵp newid hinsawdd y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cynnwys modelu effeithiau posibl newidiadau yn lefel y môr a llifogydd ar y naill law a chodiadau mewn tymheredd ar y llaw arall.

AA 12: Parhau i gynnig cymorth i wasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol a gweithio gyda Cadw i bennu blaenoriaethau cofnodi fel rhan o'r dasg o reoli asedau hanesyddol sydd mewn perygl.

Cymorth ar gyfer gwasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol: fe fyddwn, fel ymgynghoreion statudol yn y broses Caniatâd Adeilad Rhestredig, yn parhau i roi cyngor i swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol ar geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig. Byddwn yn rhoi gweithdrefnau newydd ar waith ar gyfer rheoli a monitro'r gwaith hwn (yn ogystal â'r gwaith ar gyngor cynllunio morol a thrwyddedu morol). Byddwn yn cynhyrchu arweiniad ar lefelau o gofnodi at ddefnydd swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau lleol er mwyn annog y defnydd o amodau cynllunio sy'n gofyn i ymgeiswyr am Ganiatâd Adeilad Rhestredig gofnodi'r adeiladau dan sylw ar lefel briodol o fanylder. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau treftadaeth Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y pedair cenedl yn mabwysiadu ymagwedd gyson.

AA 13: Parhau i gynnig gweithgareddau a phrofiadau sy'n cael effaith ar iechyd a llesiant ein cymunedau, gan weithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr a sefydliadau priodol.

Iechyd meddwl: yn dilyn y digwyddiad undydd a gynhaliwyd gan y Comisiwn Brenhinol yn 2017 i gyflwyno gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, rydym wedi dechrau sefydlu sylfaen gadarn o weithgarwch pellach er mwyn hybu'r archif fel archif cof, adnodd y gellir ei ddefnyddio i ysgogi atgofion a chof i bobl sy'n byw gyda dementia. Byddwn yn datblygu hyn mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru ac yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i feithrin ymagwedd gyffredin.

Teithiau cerdded tywys: byddwn yn helpu i hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb drwy barhau i weithio gyda grwpiau lleol i drefnu ac arwain teithiau cerdded mewn rhannau o Gymru y mae ganddynt dreftadaeth gyfoethog.

AA 14: Annog a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ymhlith cynulleidfaoedd eang iawn.

Treftadaeth Ddisylw: Ceredigion Gyfyngedig?: byddwn yn cwblhau cam olaf ein prosiect Ceredigion Gyfyngedig?, wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arfer gorau wrth weithio gyda phobl ifanc nad oes ganddynt lawer o gysylltiad â threftadaeth. Mae cynllun gweithredu'r prosiect wedi'i seilio ar anghenion a chymhellion y bobl ifanc, partneriaid a rhanddeiliaid a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae wedi'i strwythuro mewn ffordd a fydd yn galluogi pobl ifanc i reoli a diffinio manylion ac allbynnau eu prosiect wrth iddo ddatblygu.

Lleoliad 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol': mae'r Comisiwn Brenhinol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Ceredigion ar y cynllun *Uchelgais Diwylliannol: Amrywiaethu'r gweithle treftadaeth drwy gydweithredu, cyfle a sgiliau*. Ariennir y cynllun gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'i bwrpas yw rhoi cyfleoedd i bobl rhwng 18 a 24 oed o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is gael profiad gwaith yn y sector treftadaeth. Mae un lleoliad cyflogedig tri-mis wedi'i gwblhau'n llwyddiannus a byddwn yn parhau i gynnig lleoliadau tra bo cyllid ar gael.

AA 15: Parhau i gynnal sefydliad effeithiol ac effeithlon trwy gyflawni eich swyddogaethau corfforaethol yn unol â safonau arferion gorau a chanllawiau corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Swyddogaethau corfforaethol: mae swyddogaethau corfforaethol y Comisiwn Brenhinol yn cynnwys llywodraethu, cyllid, caffael a thalu cyflenwyr, rheoli cyfleusterau, cynllunio ar gyfer trychineb, cynnal cofrestr risg, iechyd a diogelwch, TGCh a Diogelwch Seibr, adnoddau dynol a gweithgareddau hyfforddi, monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, codi arian a datblygu partneriaethau allanol, cydymffurfiad Iaith Gymraeg, adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru, yr adroddiad blynyddol, yr archwiliad blynyddol, trefnu cyfarfodydd y Comisiwn, recriwtio Comisiynwyr, a llawer mwy.

Yn sgil archwiliad diweddar o'n cydymffurfiad â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol fe sicrhawyd achrediad Cyber Essential Plus gydag IASME, a byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i Ddiogelwch Seibr a phreifatrwydd personol yn ein holl weithgareddau.

Byddwn yn parhau i weithio gydag archwiliwyr Llywodraeth Cymru ar raglen dreigl o ymchwilio a sicrhau: yn 2020 archwilir ein cydymffurfiad â'r rheolau caffael mewn perthynas â'n gweithgarwch is-gontractio darpariaeth ddigidol, ac yn 2021 archwilir ein gweithgarwch adnoddau dynol.

Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol: fel aelod o Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a'i phedwar gweithgor byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill, staff ac undebau llafur cydnabyddedig yn y sectorau amgylchedd hanesyddol, amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd yng Nghymru i fynd i'r afael â gofynion sgiliau arbenigol yn y pedwar sefydliad cenedlaethol a'r sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach.

Bydd Ysgrifennydd y Comisiwn Brenhinol yn parhau i wasanaethu fel cydgadeirydd Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a bydd yn ymdrechu i yrru agendâu eraill y bartneriaeth yn eu blaen: rhoi sylw i gostau swyddfa gefn, gwasanaeth cwsmeriaid, cyfleoedd masnachol, brandio, cysoni cyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth ar draws y sector, a thynnu'r rhwystrau biwrocraidd i symudiad rhydd staff o'r naill sefydliad i'r llall.

3. Cymorth grant Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r dyraniad cyllid canlynol i'r Comisiwn Brenhinol yn 2019-20 ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredol hwn. Rhoddir ffigurau dros dro hefyd ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2020-21 i dalu am gostau datblygu'r platfform darpariaeth ddigidol newydd.

Refeniw	Cyllideb 2019-20 £000
Refeniw (gros)	1,618
Namyn: incwm a gynhyrchir	(87)
Llinell sylfaen y refeniw	1,531
Cyllid a ddyrennir i gwrdd â chostau pensiwn ychwanegol y sector cyhoeddus	65
Trosglwyddiad gan Cadw i gyllido Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru	60
Grant gan Cadw ar gyfer gwaith ar y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol	63
Cyfanswm y Refeniw (net)	1,719

Cyfalaf	Cyllideb 2019-20 £000	Cynlluniau 2020-21 £000
Cyfanswm y Cyfalaf	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Cyllid ychwanegol nad yw'n gymorth grant sydd wedi'i glustnodi eisoes ar gyfer cynorthwyo gyda gweithgareddau penodol:

	Cynlluniau 2019-20 £000	Dangosol 2020-21 £000
Rhaglen Casgliad y Werin Cymru	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau